**Cofnodion o gyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd Nos Fawrth 16 o Ebrill 2019 am 19:00 yn Menter Fachwen, Cwm y Glo.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Haf Williams (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Clifford Williams, Philip Roberts, Goronwy Hughes, Richard Robinson, Alan Pritchard, Martin Jones, Cemlyn Jones.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Beca Brown, Meirwen Lloyd, Llywelyn Williams

**381. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso gan y Cadeirydd i bawb am droi fyny i'r cyfarfod a diolchwyd i bawb am eu presenoldeb.

**382. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**383. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w cofnodi fel yn briodol

**384. Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Mawrth 2019**

Cadarnhawyd cofnodion mi Mawrth yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd.

**385. I drafod unrhyw faterion sydd yn codi o'r cofnodion.**

Gofynnwyd y cwestiwn gan y Cyng Hefin Jones, o beth yw ystyr 'plwyf' yn sgil beth ddywedodd y Parchedig Robert Townsend pan fynychodd gyfarfod mis Mawrth.

Nodwyd fod y Parchedig Robert Townsend wedi dweud y byddai yn dod i gyfarfod mis Mai a bydd hyn yn gyfle i ofyn y cwestiwn iddo.

**386. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Llanrug.**

Dim adroddiad ar gael oherwydd absenoldeb y cynrychiolydd

**387. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Cwm y Glo.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Alan Pritchard fod Menter Fachwen gyda cynlluniau ar gyfer ysgol Cwm y Glo ond fod angen i'r Cyngor Cymuned gadarnhau wrth Gyngor Gwynedd nad ydi'r Cyngor Cymuned gyda bwriad i'w gymryd drosodd ac hefyd eu bod yn gefnogol i'r cais.

**Penderfynwyd:** Oherwydd nad oedd yr aelodau wedi cael cyfle i weld y cynlluniau ac fod angen penderfyniad cyn gynted a phosib, cytunwyd i gynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor Cymuned ar Nos Fawrth 29ain o Ebrill 2019 am 19:00 yn y Sefydliad Coffa. Yn y cyfamser, y Cynghorydd Alan Pritchard anfon manylion o gynlluniau Menter Fachwen i'r Clerc fel gellir eu rhannu gyda'r agenda ar gyfer y cyfarfod.

**388. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

**Canolfannau Iaith**

Yn dilyn penderfyniad y Cyngor Llawn i ofyn i'r cabinet ail gysidro ad-drefnu'r Canolfannau Iaith, penderfynodd y cabinet i ohirio unrhyw benderfyniad am flwyddyn. Yn y cyfamser penderfynwyd hefyd i dreialu gwasanaeth hefo un athro/athrawes mewn un o'r canolfannau i weld os fyddai unrhyw effaith negyddol ar y safonau.

**Hyfforddiant Cynllunio**

Mynychais hyfforddiant ar gynllunio a oedd yn trafod rôl y cynghorau cymuned yn y broses cynllunio. Braf oedd gweld fod cynrychiolaeth o gyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo yn yr hyfforddiant. Siomedig oedd y nifer o gynghorau cymuned eraill a oedd yn bresennol. Dim ond tri!

**Yn Lleol**

**Ysgol Cwm y Glo**

Erbyn hyn mae'r penderfyniad statudol swyddogol wedi ei wneud i gau'r ysgol. Mi fydd hyn yn digwydd ar 31 Awst 2019. Fel sylw ar gau'r ysgol rwyf wedi datgan i'r Awdurdod y bydd yn bwysig i bwy bynnag sydd yn cymered yr adeilad drosodd i sicrhau y bydd cyfle i gael defnydd cymunedol.

**Llwybr Aml ddefnydd Cwm y Glo i Llanrug**

Rwyf mewn trafodaethau hefo swyddogion y cyngor i geisio gwella diogelwch ar hyd y llwybr. Mae'r groesfan gyferbyn a Dôl Afon dal angen sylw. Gobeithio cael datrysiad yn o fuan.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolchwyd am yr adroddiad

**389. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

Dim adroddiad a'r gael

**390.** **I dderbyn diweddariad gynllun grant disgresiwn y Cyngor (adroddiad wedi ei gylchredeg).**

Penderfynwyd: Derbyn y cynllun presennol a rhoi mwy o wybodaeth amdano

**391.** **I ystyried dyfynbris a dderbyniwyd ar gyfer gwaith ar gae chwarae Nant y Glyn**

Nodwyd fod hysbyseb wedi mynd allan ar gyfer y swydd yma ac nad oedd neb wedi dangos diddordeb. Yn sgil hyn, penderfynodd y Cyngor yn eu gyfarfod mis Mawrth i ofyn wrth ein contractwr arferol os buasai yn fodlon ymgymryd a'r gwaith. Adroddwyd fod pris wedi ei dderbyn am y gwaith.

**Penderfynwyd:** Derbyniwyd pris y contractwr a gofynnwyd i'r Clerc ei hysbysu o hyn a gofyn iddo os gellir gwneud y gwaith ar frys

**392.** **I ystyried creu holiadur cymunedol ar gyfer ymgysylltu a'r gymuned**

**Penderfynwyd:** Dosbarthwyd enghraifft o holiadur drafft i'r aelodau am sylwadau a penderfynwyd symud ymlaen a'r holiadur oherwydd fod nifer o bobl ddim yn ymwybodol o'r gwaith sydd yn cael ei wneud gan y Cyngor Cymuned

**393.** **I ystyried creu bas-data o gysylltiadau fel gellir rhoi cynnig i drethdalwyr dderbyn gwybodaeth am waith y Cyngor yn uniongyrchol i'w e-bost.**

Penderfynwyd: Symud ymlaen a creu bas data

**394.** **I dderbyn gwybodaeth gan y Cynghorydd Cemlyn Jones yn dilyn iddo fynychu cwrs ar sut i ymdrin a ceisiadau cynllunio yn ddiweddar gyda'r Cynghorydd Beca Brown .**

Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Cemlyn Jones am y cwrs cynllunio uchod. Diolchwyd iddo am yr adroddiad a cytunwyd gofyn am gopi o'r sleidiau er mwyn eu rhannu ag aelodau

**395.** **Cais Cynllunio**

a) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C19/0255/23/LL

**Lleoliad y Safle:** Afallon, Pantafon Bach, Llanrug, Caernarfon, LL554RA

**Dyddiad Cofrestru:** 29/03/2019

**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Estyniad cefn a balconi

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais am ei fod yn gwella cyflwr adeiladau'r pentref.

b) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C19/0340/23/LL

**Lleoliad y Safle:** Glandwr, Ceunant, Caernarfon, LL554RY

**Dyddiad Cofrestru:** 08/04/2019

**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Mynedfa newydd

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais oherwydd ei fod yn gwella'r weledfa bresennol ac yn ei gwneud yn ddiogelech.

**396. Cynllun grantiau gan Gyngor Gwynedd diweddariad**

Adroddwyd gan y Clerc fod y Swyddog wedi bod mewn cysylltiad ac mae'r Clerc yn disgwyl trefnu cyfarfod. Yn anffodus hyd yma nid ydi hyn wedi bod yn bosib ond gobeithir cael diweddariad ar gyfer cyfarfod mis Mai.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**397. I ystyried unrhyw fater yn ymwneud a'r Fynwent.**

Adroddwyd gan y Clerc ei fod wedi cael cais gan ymgymerwr ar gyfer gwasgaru llwch ar fedd. Wedi ymgynghoriad a Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent, penderfynwyd cysylltu a Chynghorau eraill i holi beth oedd eu polisïau nhw. Yn anffodus, er i'r Clerc gysylltu a nifer o Gynghorau traws Gwynedd ac Ynys Môn, does yr un Cyngor wedi cael cais fel hyn.

**Penderfynwyd:** Yn dilyn trafodaeth ar y mater cytunwyd i beidio caniatáu gwasgaru llwch ar fedd a'r Clerc i ychwanegu hyn at reolau'r fynwent

**398. I ystyried unrhyw fater yn ymwneud a'r meysydd chwarae – arwyddion**

Adroddwyd gan y Clerc fod y Cyngor Cymuned nawr a chyfrifoldeb am ddau faes chwarae yn Cwm y Glo. Er i arwydd ar bapur wedi ei lamineiddio gael ei osod fyny yna roedd y tywydd yn ei ddinistrio. Gofynnir i'r Cyngor ystyried rhoi arwydd parhaol i fyny.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i wneud y trefniadau ar gyfer rhoi arwyddion i fyny ar ein meysydd chwarae

**399. Lleoliad cyfarfod mis Mai 2019 – Sydd hefyd yn gyfarfod blynyddol**

**Penderfynwyd:** Cyfarfod mis Mai i'w gynnal yn y Sefydliad Coffa, Llanrug

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: